Funded by
UK Government

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

*This project is funded by the UK government through the UK Shared Prosperity Fund.*



# Catalog Cymorth



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Mae llawer o gyflenwyr profiadol sy'n ysgrifennu ceisiadau sy'n ceisio rhoi'r cyfle gorau i chi lwyddo gyda'ch cais am gyllid. Ar ôl dweud hynny, darparwr y cyllid ydy'r unig un sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, a does dim sicrwydd.

Mae'r gwasanaethau hyn yn ymwneud â gwneud eich cais mor gryf â phosibl, gan sicrhau ei fod yn ticio'r holl flychau cywir ac yn dangos eich cryfderau. Ond cofiwch, mae ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y cyflenwr sy'n gallu effeithio ar y canlyniad, gan gynnwys:

- Faint o rai eraill sy'n cyflwyno cais a lefel y gystadleuaeth.
- Blaenoriaethau a phenderfyniadau penodol darparwr y grant.
- Unrhyw newidiadau i delerau'r cyllid neu'r grant.

Drwy ddewis un o'r cyflenwyr hyn, rydych chi'n cytuno nad nhw sy'n gyfrifol os na fydd eich cais yn llwyddiannus. Mae eu ffioedd yn talu am eu hamser, eu harbenigedd a'u hymdrech i greu eich cais, dim ots beth yw'r canlyniad.

Rydyn ni'n eich annog i feddwl am y pwyntiau hyn cyn symud ymlaen ac i gysylltu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau - rydyn ni yma i help



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Uchelgais Gogledd Cymru

**Rydyn ni'n gweithio i greu Gogledd Cymru:**

**Cysylltiedig**

Datblygu a gwella cysylltedd a seilwaith digidol

**Clyfar**

Manteisio ar arloesedd yn ein sectorau gwerth uchel a hyrwyddo ymchwil

**Cadarn**

Creu swyddi newydd uchel eu gwerth a rhoi rheswm i bobl ifanc aros

**Cynaliadwy**

Gwarchod ein hamgylchedd a datblygu ein rhanbarth mewn ffordd gyfrifol

Rydyn ni'n canolbwyntio ar sectorau twf uchel i hybu cynhyrchiant yn y rhanbarth

- Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
- Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth
- Ynni Carbon Isel

Galluogi sectorau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i dwf economaidd

- Cysylltedd Digidol
- Tir ac Eiddo

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

## Manylion Cyswllt


ambitionnorth.wales

info@ambitionnorth.wales

# Busnes Cymru

### Beth all Busnes Cymru ei gynnig:

- Esboniad o sut y mae system brynu'r sector cyhoeddus yn gweithio
- Eich helpu i ddeall yn well beth y mae prynwyr mawr yn chwilio amdano mewn cyflenwyr
- Cynnig cymorth a chyngor un-i-un ar ddatblygu tendrau
- Eich helpu i ddeall sut mae cydweithio â busnesau bach a chanolig eraill i wneud cais am gontractau mwy
- Helpu i'ch arwain drwy'r systemau tendro electronig mae sefydliadau prynu'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn eu defnyddio
- Eich helpu i gychwyn arni ar gwerthwchigymru.llyw.cymru, y safle lle mae'r rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn hysbysebu eu busnes
- Cefnogi eich ymrwymiad i strategaethau datgarboneiddio drwy ddefnyddio ein Hadduned Twf Gwyrdd
- Cymorth ar gyfer unrhyw beth sy'n ymwneud â chynaliadwyedd/datgarboneiddio/atebion carbon isel yn eich busnes.

## Manylion cyswllt

**Tîm Datgarboneiddio**

daniel.thomas@businesswales.org

aimee.docwra@busninesswales.org

gareth.davies@businesswales.org

**Llinell Gymorth Busnes Cymru**
**03000 6 03000**

Ffurflen Gyswllt Ar-lein

### Adnodd defnyddiol

Cyflwyno tendr am gontract

Busnes Cymru | Business Wales

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Yr Ymddiriedolaeth Garbon

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn bartner arbenigol i fusnesau, llywodraethau a sefydliadau ar draws y byd - gan eu helpu i ddatgarboneiddio a chyflymu tuag at Sero Net.

Maen nhw'n cefnogi sefydliadau wrth iddyn nhw gyflymu tuag at Sero Net. O osod targedau, llwybrau Sero Net, sicrwydd a mesur ôl-troed, i gyngor ar bolisi, gosod strategaethau a chyflawni rhaglenni, maen nhw'n chwilio am ffyrdd mwy clyfar o droi uchelgais yn effaith, lle mae cynaliadwyedd a realiti economaidd yn mynd law yn llaw. Cydweithio yw eu dull gweithredu, gan eu bod yn dod â busnesau, llywodraethau a sefydliadau ariannol at ei gilydd i ddatgloi newid ar y cyd.

CARBON TRUST

**Gwefan**

[carbontrust.com](carbontrust.com)

# Ynni Cymunedol Cymru

Mae Ynni Cymunedol Cymru yn fudiad aelodaeth nid-er-elw sy'n rhoi cymorth a llais i grwpiau cymunedol sy'n gweithio ar brosiectau ynni yng Nghymru. Maen nhw eisiau helpu i greu'r amodau yng Nghymru a fydd yn caniatáu i brosiectau ynni cymunedol lwyddo, ac i gymunedau ffynnu.

**Y Weledigaeth**: dylai pobl fod wrth galon y system ynni.
Eu cenhadaeth: Cefnogi a chyflymu'r broses o newid i system ynni deg, garbon isel sy'n cael ei harwain gan y gymuned.

## Manylion cyswllt

ynnicymunedol.cymru

info@communityenergywales.org.uk

02920 190260

Ynni Cymunedol Cymru Community Energy Wales

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Cwmpas

Mae'r tîm o gynghorwyr yn cynnig cymorth a chefnogaeth ar draws ystod eang o feysydd, o gymorth cydweithredol a mentrau cymdeithasol i gynhwysiant digidol.

Mae eu gwasanaethau ymgynghori busnes yn cynnwys:

- Trawsnewid digidol
- Dysgu a datblygu
- Gwerth cymdeithasol
- Gofal cymdeithasol
- Gwerthuso
- Astudiaethau dichonoldeb
- Polisi
- Ymchwil a chyflawni

## Manylion cyswllt

cwmpas

0300 111 5050

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

cwmpas

# Grŵp Llandrillo Menai- Academi Ddigidol Werdd

Os ydych chi'n fusnes bach a chanolig yng Ngogledd Cymru, nod yr Academi Ddigidol Werdd yw cefnogi busnesau sy'n gweld gwerth mewn defnyddio technolegau digidol newydd, cyflymu effeithlonrwydd, cynhyrchiant, lleihau carbon a lleihau costau.

Drwy'r prosiect, byddwch yn gallu cael gafael ar gymorth ymgynghorol wedi'i ariannu'n llawn ar ffurf mentor. Bydd y mentor yn gallu eich helpu i werthuso eich sefyllfa bresennol a chynnal proses ddiagnostig ar eich busnes, datblygu cynllun i nodi hyfforddiant a chyllid i'ch cefnogi i leihau eich ôl-troed carbon.

GREEN DIGITAL

GREEN DIGITAL ACADEMY

Grŵp Llandrillo Menai

## Manylion cyswllt


Academi Ddigidol Werdd

greendigital@gllm.ac.uk

08445 460 460


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Innovate UK Business Growth

Mae Innovate UK Business Growth (Innovate UK EDGE o'r blaen) yn rhan allweddol o fuddsoddiad dwfn asiantaeth arloesedd y DU yn y busnesau arloesol sy'n sbarduno twf economaidd. Mae'n wasanaeth sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus ac sydd ar gael i bob cwmni bach a chanolig posibl sy'n cael ei yrru gan arloesedd, gan gynnwys enillwyr grantiau Innovate UK.

Mae arloeswyr yn awyddus i wella'r ffordd rydyn ni'n byw ac yn gweithio. Mae Innovate UK yn cefnogi'r rhai sy'n adeiladu busnesau a allai ehangu'n gyflym i gyflawni eu nodau ym mhob sector ac o gychwyn busnes i'r cam tyfu.

Maen nhw'n gweithio'n agos gyda thimau arwain, fel BIC Innovation, i greu'r amodau i bob busnes lwyddo a dod â manteision eu harloesedd i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

## Manylion cyswllt

Innovate UK

enquiries@iukbc.org.uk

Innovate UK

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# DEG- Datblygiadau Egni Gwledig

Mae gwaith DEG yn rhoi'r hyder, yr wybodaeth a'r uchelgais i gymunedau gymryd perchnogaeth dros eu dyfodol drwy brosiectau fel:

- Lleihau'r defnydd o ynni, costau tanwydd a dibyniaeth ar danwydd anghynaladwy
- Cryfhau'r economi leol
- Cynhyrchu trydan a gwres cynaliadwy

Mae DEG yn hwyluso'r broses o ddefnyddio arferion gorau drwy gynnal digwyddiadau sy'n cysylltu cymunedau ac sy'n annog dysgu, rhannu sgiliau a phrofiadau.

Mae DEG yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n bosibl, yr hyn sydd wedi'i gyflawni mewn mannau eraill yn ein hardal ac arferion gorau gan grwpiau ynni cymunedol ledled Prydain. Rydyn ni'n gallu helpu gyda'r canlynol:

- Dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer eich cymuned
- Cael pobl i gymryd rhan
- Cynllunio a datblygu prosiectau
- Cael gafael ar arbenigedd
- Codi arian i wneud i brosiectau ddigwydd

## Manylion cyswllt

deg.wales

post@deg.cymru

01286875693

# Menter Môn- Hwb Menter

Un o brosiectau Menter Môn yw Hwb Menter. Mae'n rhoi'r wybodaeth, yr arweiniad, yr ysbrydoliaeth a'r lle i entrepreneuriaid drawsnewid eu syniad yn fusnes llwyddiannus.

Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn cynnwys y canlynol:

- swyddfeydd ar gyfer gweithio ar y cyd
- cymuned o unigolion o'r un anian ar gyfer rhannu syniadau a chynnig anogaeth
- cyngor busnes
- amrywiaeth o ddigwyddiadau addysgol a chymdeithasol,
- Gofod Creu Ffiws
- Rhaglen cychwyn busnes Miwtini.

## Manylion cyswllt


hwbmenter.cymru

01248 858 070

post@hwbmenter.wales


GWYNEDD · HWB MENTER ENTERPRISE HUB · YNYS MÔN

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# M-SParc- Parc Gwyddoniaeth Menai

## Cymorth Busnes

Mae'r cymorth sydd ar gael yn M-SParc yn cynnwys meithrin a chefnogi busnesau, eu helpu i wneud cysylltiadau a sicrhau bod cwmnïau tenant yn rhan o ecosystem.

Yn M-SParc, mae tîm Egni yn gweithio ar draws amrywiaeth o brosiectau, o gefnogi'r sector gwynt ar y môr i'r sector niwclear newydd, o gynghori cwmnïau ar sut i leihau eu hôl troed carbon i gynllunio sut i gyrraedd sero net erbyn 2030!

## Llythrennedd Carbon

Mae'r tîm yn cynnig hyfforddiant llythrennedd carbon, sef rhaglen addysgol sydd wedi'i dylunio i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o allyriadau carbon, newid hinsawdd, a'u heffeithiau cysylltiedig. Cysylltwch â - rhodrid@m-sparc.com

gan Brifysgol Bangor
by Bangor University

## Manylion cyswllt

m-sparc.com

post@m-sparc.com
egni@m-sparc.com

01248 858000

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Maen nhw'n darparu cyllid grant, yn ogystal â chyngor technegol, masnachol a chaffael i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Mae'r prosiectau hyn yn lleihau allyriadau carbon, yn creu arbedion cost ac incwm, ac yn rhoi manteision ehangach i'r gymuned.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys y canlynol:

- Cynllunio ynni rhanbarthol.
- Systemau gwresogi carbon isel.
- Effeithlonrwydd ynni.
- Ynni adnewyddadwy.
- Cerbydau di-allyriadau.
- Seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydan.

## Manylion cyswllt

enquiries@energyservice.wales

Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Ynni Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at sefydlu Ynni Cymru: cwmni ynni sy'n eiddo cyhoeddus i Gymru, gyda'r nod o ehangu a buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth y gymuned.

Dyma bedwar amcan Ynni Cymru:

1. Ehangu'r ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol sy'n cael ei ddefnyddio a'i gynhyrchu yng Nghymru
2. Sicrhau bod prosiectau defnyddio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl
3. Cyflymu'r broses o drawsnewid a defnyddio systemau ynni lleol clyfar ledled Cymru
4. Hwyluso pontio teg tuag at sero net, gan gadw'r manteision i gymunedau Cymru

Mae Partneriaethau Lleol wedi cael eu comisiynu i gefnogi datblygiad Ynni Cymru.

Local Partnerships

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Greener Edge

Mae Greener Edge yn cyfrifo ôl troed cyfan busnes gan gwmpasu allyriadau cwmpas 1, 2 a 3 cyflawn.

Maen nhw'n mapio sut mae ynni'n cael ei ddefnyddio mewn adeilad ac yn darganfod faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer goleuo, gwresogi, oeri a phrosesu offer ac ati a pha offer sy'n defnyddio'r ynni hwnnw.

Bydd Greener Edge yn gweithio gyda chleientiaid i gyflwyno cynllun gweithredu cynaliadwyedd cynhwysfawr, sy'n cwmpasu pob agwedd ar effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio, y gadwyn gyflenwi ac effeithlonrwydd adnoddau yn ogystal â'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.

Mae Greener Edge hefyd yn darparu:

- Archwiliad a chefnogaeth ISO: 14001 ac ISO: 50001
- Archwiliadau gwastraff
- Rheoli prosiect
- Archwiliadau bioamrywiaeth

Greener Edge
SUSTAINABILITY
GIVING YOU A GREENER EDGE

## Manylion cyswllt


stu@greener-edge.co.uk

Greener Edge

07763 678468

# Lafan

Mae gwaith Lafan yn ymwneud â chydweithio, grymuso ac arloesi fel y gallwn dyfu law yn llaw â chi i gyflawni eich nodau. Mae eu tîm ymroddedig yn cydweithio'n agos â'u cleientiaid i ddatgelu eich cryfderau a'ch gwendidau, gan sicrhau dealltwriaeth ddofn o'ch gweithrediadau.

Gyda ffocws ar entrepreneuriaeth, maent yn meithrin arloesedd, yn gwella effeithlonrwydd, ac yn hwyluso twf ym mhob agwedd ar weithrediadau busnes.

Maent yn cynnig arbenigedd mewn meysydd amrywiol megis bwyd a diod, addysg, technoleg amaethyddol, datblygu cymunedol, cymorth ariannol, cynaliadwyedd a chadwyni cyflenwi. Wrth drafod meysydd arbenigol gyda chleient mae'r ymgynghorwyr yn siarad ar sail profiad.

## Manylion cyswllt


post@lafan.cymru

lafan.cymru

01248 665624


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# 50 Degrees

Mae 50 Degrees wedi helpu sefydliadau i ennill contractau gwasanaeth cyhoeddus ar raddfa fawr ers 2015, gan sicrhau dros £3bn+ ar draws 30 o farchnadoedd gwahanol, mewn 15 gwlad ar gyfradd ennill o dros 80%.

Maent yn darparu:

- **Gwybodaeth am y farchnad**: maent yn gweithredu ar draws gwahanol farchnadoedd a gwasanaethau cyhoeddus. Mae dyfnder ac ehangder y profiad yn dod â gwahanol safbwyntiau, graddfa, arloesedd a mewnwelediad.
- **Arbenigedd mewnol arbenigol**: trwy gyflogi tîm o weithwyr datblygu busnes proffesiynol profiadol yn uniongyrchol. Bydd yr ymgynghorwyr yn herio'ch ffordd o feddwl, ac yn cynnig dulliau ac atebion wedi'u llywio gan eu profiad helaeth.
- **Cymorth pentwr llawn**: Maent yn darparu model cymorth datblygu busnes o un pen i'r llall, gan helpu sefydliadau i ddatblygu strategaeth, mynd i mewn i farchnadoedd/gwasanaethau newydd, dylunio modelau darparu gwasanaethau newydd, ysgrifennu cynigion buddugol, a throsglwyddo gwybodaeth i dimau cynnull.
- **Cymorth integredig, hyblyg**: maent yn deall heriau bargeinion mawr cymhleth ac yn defnyddio eu timau'n hyblyg, gan weithio fel partner sefydledig.

50 Degrees
Better Growth.

## Manylion cyswllt

enquiries@50-degrees.com

50 Degrees

50 Degrees Linkedin

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# The Innovation Partnership

Mae The Innovation Partnership Ltd yn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â marchnata i fusnesau bach a chanolig arloesol sy'n seiliedig ar wybodaeth ac i'r cyfryngwyr sy'n eu cefnogi yn ystod eu cyfnodau cychwyn, cyfnod cynnar a thwf.

Mae ein harbenigedd yn seiliedig ar wybodaeth am yr anghenion datblygu a'r rhwystrau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig (BBaCh) yn y sector busnes-i-fusnes, yn enwedig y rhai sy'n ceisio twf trwy fanteisio'n fasnachol ar wybodaeth, technoleg newydd a chynhyrchion arloesol.

The Innovation Partnership

## Contact


tipl@innopartners.com

theinnovationpartnership.com

07734034500


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Cwmnïau preifat

Mae cwmnïau preifat ar gael sy'n gallu helpu gyda cheisiadau am gyllid hefyd.